# Sul y Genhadaeth

## Darlleniad: Rhufeiniaid 10: 1-17

O! Dduw, Ein Tad, wrth i ni agosáu atat mewn gweddi, pâr inni gofio am y rhai a'th wasanaethodd di ym mhob oes a chyfnod ac a dystiolaethodd i'w ffydd, mewn bywyd ac mewn marwolaeth.

Diolchwn i ti, O! Arglwydd, am yr esiampl a roddwyd i ni ym mywyd y disgyblion gynt wrth adael pob peth er mwyn dy wasnaethu di. Diolchwn am gadernid eu tystiolaeth wrth gychwyn ar y gwaith o gario'r efengyl i bedwar ban y byd. Cyfrennaist oleuni iddynt mewn tywyllwch, nerth mewn anhawster, ffydd mewn erledigaeth, a llawenydd mewn dioddefaint.

Diolchwn i ti am ymroddiad y cenhadon ddoe - am eu hymdrechion dros y ffydd wrth lewyrchu goleuni a gwirionedd yr efengyl i fywyd dy blant yn y meysydd hynny lle buont yn dy wasanaethu; am ddylanwad eu tystiolaeth ar fywyd dynion, dylanwad sy'n aros hyd heddiw.

Diolchwn i ti am waith diflino'r rheiny a ddaeth â neges yr efengyl i'n gwlad, ac a gynorthwyodd i sefydlu eglwysi i Grist a chadarnhau grym yr efengyl ar fywyd ein cenedl.

Cofiwn a diolchwn am y rhai a rannodd yr efengyl gyda llawenydd a brwdfrydedd ymhob oes a chyfnod, y rhai a safodd yn dy enw di ac a dystiolaethodd i'r gwirionedd ar hyd y canrifoedd. Erfyniwn arnat ti i fendithio y rhai sy'n parhau â'r gwaith heddiw er sicrhau lledaeniad dy Air yn ein gwlad ac yn dy fyd.

Gweddïwn am fendith a'th gymorth heddiw eto i'r rhai hynny sy'n ymdrechu i arwain dy blant o'r newydd at y newydd da sydd yn Iesu Grist ac yn arbennig y rheiny, sy'n llafurio er mwyn mynegi dy gariad mewn lleoedd anodd. Na ad iddynt ddigalonni oherwydd dieithrwch a chaledi'r gwaith, ond yn hytrach nertha hwy i ddal ati

yn y gras sydd ynot ti.

Cynorthwya ni, o gofio'u haberth, i ddyblu ein sêl, ac i'n hymgysegru ein hunain i fod yn ffyddlon i ti. Boed inni gofio mai ein braint ni yw lledaenu'r efengyl yn ein bro ac yn dy fyd. Tydi, O! Dduw, sydd wedi galw dynion i gyhoeddi'r efengyl ym mhob oes; ti a'u paratôdd mewn cariad ar gyfer y gwaith. Meithrin ni heddiw i fod yn dystion ffyddlon i ti. Agor ein clustiau i glywed dy alwad y dydd hwn, a rho inni'r ewyllys i ymateb heb aros i gyfri'r gost. Agor ein llygaid o'r newydd i'r cyfle i wasanaethu dy deyrnas di yn ein dydd a'n cenhedlaeth. Dangos inni'r hyn y mynni di i ni ei wneuthur. Gwna ni'n barod i ddysgu fel y medrwn ddysgu eraill am Iesu Grist drwy ein geiriau a'n hesiampl.

Rho yn ein calon yr awydd i'th wasanaethu di a'r rheiny sydd o'n hamgylch. Cynorthwya ni i fanteisio ar bob cyfle i siarad, i weithredu a bod yn ffyddlon i'n ffydd a'n cred yn yr Arglwydd Iesu Grist. Gwasgara ein hamheuon, cadarnha ein ffydd ac ysbrydola ni i gyflawni gweithredoedd mawr yn dy enw di, drwy gyfrwng yr efengyl.

Boed i'th enw di fod yn fyw ar wefusau dy blant ym mhob man, yn Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

*Graham Floyd*